

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymdrin â hyrwyddo a chynnig gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn y gymuned.

Mae'r safon hefyd yn ymdrin â chynnig mwy o weithgareddau chwaraeon a chorfforol a gwella iechyd yn y gymuned gan ddenu mwy o drigolion y gymuned i gymryd rhan a pharhau i gymryd rhan.

Mae'r safon yn pwysleisio'r angen i roi agendâu cenedlaethol a lleol perthnasol ar waith ac o ganlyniad ymchwilio i'r gymuned y byddwch yn cydweithio gyda hi.

Byddwch yn datblygu perthnasau gwaith gyda chysylltiadau allweddol yn y gymuned, cynnig rhaglenni a chynnig cyfle i gymunedau, gyda'ch cyngor proffesiynol ac arbenigedd, i gynnig cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan a datblygu.

**

**

Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. adnabod sefydliad/mudiad, asiantaethau ac unigolion i ymgysylltu â nhw er mwyn cynnig gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn y gymuned

- 2.

datblygu a chynnal cysylltiadau yn y gymuned

3. Ymgysylltu a chydweithio gydag eraill i gynllunio a chynnig rhaglenni gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn y gymuned

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Adnabod sefydliad/mudiad, asiantaethau ac unigolion i ymgysylltu â nhw er mwyn cynnig gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn y gymuned**

1. casglu a dadansoddi gwybodaeth yn ymwneud ag asiantaethau cenedlaethol a lleol
2. casglu a dadansoddi gwybodaeth a nodweddion am y gymuned
3. llunio syniadau ac awgrymiadau yn sgîl eich canfyddiadau o'r gwaith ymchwil
4. cofnodi gwybodaeth y mae modd ei defnyddio er mwyn datblygu cysylltiadau
5. gwerthuso'ch canfyddiadau i amlygu anghenion y gymuned a grwpiau targed posib
6. ymchwilio i gyfleoedd ariannu posib

Datblygu a chynnal cysylltiadau yn y gymuned

7. mynd ati i ddatblygu cysylltiadau gwaith gyda mudiadau, asiantaethau ac unigolion
8. cynnig gwybodaeth i fudiadau, asiantaethau ac unigolion am y nifer o drigolion y gymuned sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chorfforol ar hyn o bryd
9. cytuno ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau
10. mynd i'r afael â phroblemau, unrhyw anghytuno neu gwynion gan fudiadau, asiantaethau ac unigolion yn unol â'ch polisïau a gweithdrefnau trefniadaethol
11. cynnig gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i fudiadau, asiantaethau, unigolion a'r gymuned
12. hyrwyddo diben eich maes gwaith, ynghyd â'r gwerthoedd a dulliau ynghlwm, gyda'r gymuned a mudiadau, asiantaethau ac unigolion eraill

* *

Ymgysylltu* a chydweithio gydag eraill i gynllunio a chynnig rhaglenni gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn y gymuned*

13. dod â mudiadau, asiantaethau ac unigolion eraill, y byddech yn medru cydweithio gyda nhw, ynghyd
14. cyflwyno canfyddiadau eich ymchwil er mwyn eu trafod a chytuno arnyn nhw gyda'r nod o fodloni anghenion agendâu lleol a chenedlaethol
15. cytuno ar baramedrau ar gyfer cydweithio gyda'r gymuned a mudiadau, asiantaethau ac unigolion eraill.
16. cytuno ar egwyddor ac amserlen er mwyn cydweithio gyda'r gymuned a mudiadau, asiantaethau ac unigolion eraill
17. monitro ac adolygu'r amserlen cydweithio gyda'r gymuned a mudiadau, asiantaethau ac unigolion eraill
18. cynnig gwybodaeth am y fenter gweithgareddau chwaraeon a chorfforol gyda'r gymuned, yn unol â'ch polisïau a gweithdrefnau trefniadaethol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Adnabod sefydliad/mudiad, asiantaethau ac unigolion i ymgysylltu â nhw er mwyn cynnig gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn y gymuned**

1. dulliau ymchwilio a thechnegau dadansoddi
2. cyfleoedd ariannu
3. sut i wneud y defnydd gorau **o bobl ac adnoddau gan ystyried demograffeg** er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion arfaethedig yn ymwneud â gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn y gymuned
4. polisiau'r llywodraeth yn gysylltiedig â gweithgareddau corfforol yn ymwneud â chwaraeon ac iechyd yn y gymuned, fel lleihau gordewdra a chynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau
5. y berthynas rhwng lefel y gweithgaredd corfforol ac iechyd yn y gymuned
6. y gwahaniaeth rhwng ymagweddau chwaraeon cymunedol ac ymagweddau chwaraeon confensiynol
7. eich polisiau chi a pholisiau rhanddeiliaid eraill yn ymwneud â gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn y gymuned
8. modelau ac astudiaethau achos ynghylch ymarfer effeithiol yn ymwneud â gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn y gymuned
9. yr ystod o **fudiadau, asiantaethau ac unigolion** y gallech chi ddatblygu polisi neu strategaeth ar y cyd â nhw er mwyn mynd i'r afael â phrosiect

Datblygu a chynnal perthnasau yn y gymuned

9. y 'rhwystrau' posib yn ymwneud â'r gymuned a sut i ofalu fod modd i bobl fanteisio ar y rhaglenni
10. protocolau ar gyfer cysylltu gyda **mudiadau, asiantaethau ac unigolion**
11. y math o wybodaeth i'w rhannu a'i hyrwyddo

12. pam ei bod hi'n bwysig i chi egluro'ch swydd a'ch nodau a'ch amcancion eich hun ynghyd ag egluro'u swydd a'u nodau a'u hamcanion nhw
13. yr iaith a'r dull cyfathrebu
14. pwysigrwydd ymateb i gwestiynau, syniadau ac awgrymiadau
15. polisiâu trefniadaethol wrth ymdrin â dulliau **mudiadau, asiantaethau ac unigolion** eraill
16. sut i adnabod anghenion hirdymor y gymuned ynghyd a threfnu a chynnal y canlynol:

16.1 cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan a datblygu

16.2 prosiectau a mentrau sy'n bodoli eisoes

16.3 cyfleoedd newydd

16.4 strwythurau parhaol ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn eu cymuned

16.5 strategaeth hirdymor ar gyfer buddion gweithgareddau chwaraeon a chorfforol wrth gydweithio gyda **mudiadau, asiantaethau ac unigolion** eraill

Ymgysylltu* a chydweithio gydag eraill i gynllunio a chynnig rhaglenni gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn y gymuned*

17. pam fod rhwydweithio'n bwysig er mwyn hyrwyddo'ch mudiad
18. y buddion cyffredin posib yn sgil cydweithio gyda **mudiadau asiantaethau ac unigolion** eraill
19. pwysigrwydd cytuno'n gadarn ar **baramedrau** ar gyfer cydweithio
20. y mathau o broblemau, anghytuno neu gwynion gan fudiadau, asiantaethau ac unigolion, ynghyd â ffyrdd i fynd i'r afael â nhw
21. sgiliau trafod a sgiliau datrys problemau ar gyfer cydweithio
22. sut i hyrwyddo'r buddion tymor hirach yn sgîl cynnig cyfle i drigolion yr ardal gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chorfforol a datblygu'r un pryd
23. pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad ac adolygu cynnydd gyda

mudiadau, asiantaethau ac unigolion eraill

Cwmpas/Ystod

Gwybodaeth Ychwanegol

Diben yr wybodaeth ganlynol ydy cynnig cyfarwyddyd i'r rheiny sy'n defnyddio'r safon hon.

Nodau ac amcanion

Yn y safon hon caiff y term **nodau ac amcanion** ei ddefnyddio ac yn y cyd-destun hwn mae'n cyfeirio at gynnwys pawb, datblygiad personol, datblygiad cymdeithasol, datblygiad corfforol a datblygu sgiliau.

Mae'n debyg y bydd rhai o'r enghreifftiau blaenllaw, yn dibynnu ar anghenion trigolion y gymuned ac agendâu lleol a chenedlaethol.

Er enghraifft mae'n bosib y bydd gofyn i'ch mudiad ddatblygu strategaeth yn ymwneud â gweithgareddau chwaraeon a chorfforol, sy'n addas i bawb, yn ymwneud â meysydd lle mae yna flaenoriaeth i ymwneud â phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu bobl anabl.

Mae datblygiad cymdeithasol yn cyfeirio at gynnig cyfle i bobl ddatblygu a gweithgareddau i ofalu newid cymdeithasol mewn cymunedau drwy gyfrwng gweithgareddau chwaraeon a chorfforol.

Mae datblygu sgiliau a datblygu'n gorfforol hefyd yn hanfodol wrth ddenu pobl i fanteisio ar weithgareddau chwaraeon a chorfforol ac yn y fath modd, maen nhw'n annog datblygu sgiliau bywyd.

Paramedrau

Wrth ymwneud a chydweithio gydag eraill, dyma'r paramedrau y dylai bawb ynghlwm eu hystyried:

- nodau ac amcanion
- dyletswyddau, cyfrifoldebau a rhannu gwaith
- dull
- proses

-
- ethos
 - canolbwynt
 - mesurau wrthgefn

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Data Ystadegol (lleiafswm o 5)

1. cymysgedd ethnig
2. nifer o blant ysgol yn y gymuned
3. ffigyrau troseddau yn y gymuned
4. perthnasau o fewn a rhwng grwpiau
5. materion cymdeithasol ac economaidd
6. diwylliant a gwleidyddiaeth
7. crefydd
8. poblogaeth
9. ffiniau a therfynau
10. economi
11. cysylltiadau allweddol
12. cyfleusterau
13. asiantaethau eraill
14. mentrau perthnasol eraill a'u nodau ac amcanion nhw
15. rhwystrau rhag medru cymryd rhan a datblygu

* *

Pobl ac adnoddau (lleiafswm o 4)

1. arweinwyr / gweithredwyr cymunedol unigol
2. grwpiau
3. unigolion dichonol i gymryd rhan
4. gwirfoddolwyr dichonol

5. asiantaethau / gweithwyr proffesiynol eraill
6. perchnogion y cyfleusterau
7. adnoddau
8. cyfleusterau confensiynol
9. cyfleusterau anghonfensiynol
10. staff o'r gymuned
11. staff o du allan i'r gymuned
12. prosiectau a mentrau sy'n bodoli eisoes

* *

Mudiadau, asiantaethau ac unigolion (lleiafswm o 3)

1. o'r maes chwaraeon a/neu hamdden
2. o feysydd arbenigol eraill
3. mudiad cymunedol
4. gweithwyr proffesiynol y byd iechyd
5. grwpiau cefnogi neu gymunedol
6. mudiad masnachol
7. y rheiny sy'n wynebu rhwystrau rhag medru manteisio
8. asiantaethau ariannu

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2018
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Chwef 2023
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKA61
Galwedigaethau perthnasol	Swyddi Chwaraeon a Ffitrwydd , Gweithwyr proffesiynol cysylltiol a galwedigaethau technegol
Cyfres/Set	Rheoli Hamdden
Geiriau Allweddol	Strategaeth, Ymchwil, Cymuned, Datblygu, Cynnig, Ymwneud, Cynnal, Perthnasau